



Gwers 13



Cyfres Stori Duw

Byw fel pobl Dduw – Y Gyfraith

Exodus 19: 1–8 a 20: 1–17

Nod:

Deall cynllun Duw ar gyfer ei bobl yn y byd.

Adnodau:

Exodus 19: 1–8 a 20: 1–17

Y cefndir:

Mae'r Israeliaid yn rhydd. Mae pobl Dduw ar eu ffordd i'r wlad mae Duw wedi ei haddo, i fyw gydag ef ac o dan ei awdurdod. Atgoffwch y bobl ifanc o Adda ac Efa – oherwydd eu hanufudd-dod a'u pechod, nid oedd hi'n bosibl iddynt fyw gyda Duw yng ngardd Eden. Sut felly all yr Israeliaid fyw gyda Duw yn y wlad y mae'n ei pharatoi ar eu cyfer? Fe welwn heddiw gyfamod Duw gyda'i bobl, cyfamod sy'n eu galluogi i fyw gydag ef. Er eu pechod maent yn dal i fod yn bobl Duw, yng ngwlad Duw ac o dan awdurdod Duw.

Gweithgaredd:

Myfi yw Moses.

Rhannwch y dosbarth yn ddau (os yw'r dosbarth yn fach gall un grŵp weithio). Chwaraewch gêm o 'pictionary'. Fe fydd angen i chi baratoi rhestr o eiriau o'r sesiynau sydd wedi bod hyd yma, ee, gardd Eden, Abraham, yr Aifft, caethweision...

Penodwch un person i fod yn llefarydd ar gyfer y grŵp (neu bob tîm), dim ond ef neu hi fydd yn cael siarad â chi trwy gydol y gêm. Mae'r llefarydd yn dod atoch i gael y gair cyntaf ac yna mae ef/hi yn ceisio darlunio'r gair ar gyfer y tîm. Ni cheir defnyddio geiriau nac ystumiau. Gall unrhyw aelod o'r grŵp ddyfalu beth yw'r gair, ond dim ond y llefarydd all ddod atoch chi gyda'r ateb.

Gallwch roi fferins fel gwobr i'r bobl ifanc, a gadael iddynt eu bwyta yn ystod y drafodaeth ganlynol.

Darllen yr adnodau:

Gofynnwch i un o'r bobl ifanc ddarllen Exodus 19:1–8.

Sgwrs:

Gofynnwch i'r dosbarth a oes rhai ohonynt yn perthyn i dîm, clwb neu fudiad. Holwch hwy a oes rheolau ar gyfer bod yn aelod. Os yw'r dosbarth yn cael trafferth meddwl am rywbeth, ac fel enghraifft dda, gallwch ddefnyddio bod yn ddisgybl yn yr ysgol, gan y bydd yn wir i bawb o'r dosbarth.

Beth yw'r rheolau? (gwisg, ymddygiad, presenoldeb, parch ayb)

Pam mae rheolau? (yn bennaf, er mwyn diogelwch y disgyblion a'r athrawon, rhai [peidio gadael yr ysgol ayb] er mwyn gwarchod enw da'r ysgol, er lles y disgyblion – fel eu bod yn dysgu ac yn llwyddo yn yr arholiadau, ac i roi sail dda iddynt i fynd ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu bywyd)

Yn y rhan hon (yn arbennig ad 4–8) Mae Duw yn sôn am gyfamod gyda'r Israeliaid ac mae'n dweud fod bendithion i'r Israeliaid o gadw'r cyfamod. Beth yw'r bendithion hyn? (ad 5 a 6)

Beth yw ymateb y bobl i eiriau Duw? (ad 7 a 8)

Esboniwch mai dymuniad Duw ar gyfer ei bobl oedd eu bod yn byw mewn perthynas ag Ef, o dan ei awdurdod, ac yn derbyn ei fendithion. Fe fyddai hyn yn dangos yn glir

i'r cenhedloedd pa mor rhyfeddol yw Duw, a byddent yn cael eu denu ato eu hunain, i'w addoli. Mae Duw yn rhoi gorchmynion / cyfraith i'r Israeliaid er mwyn dangos iddynt sut y dylai ei bobl Ef fyw, sut y dylent fyw bywydau sanctaidd, er mwyn dangos gogoniant Duw i'r byd. Mae'r gyfraith, er lles yr Israeliaid, a thrwyddynt hwy er lles y byd.

Cwis:

Gellir dechrau gyda'r stori hon: roedd athrawes ysgol Sul yn siarad gyda'i dosbarth o blant saith oed am y 10 gorchymyn. Wedi esbonio beth oedd y gorchymyn am anrhydeddu eich tad a'ch mam yn ei olygu, fe ofynnodd a oedd gorchymyn yn dweud wrthym sut y dylem drin ein brodyr a'n chworydd?

Atebodd un bachgen yn syth, yr hynaf o 3 o blant, – 'Na ladd'.

Holwch sawl un o'r 10 gorchymyn y mae'r dosbarth yn gallu eu cofio, ysgrifennwch yr atebion ar fwrdd gwyn / du, neu ar bapur lle gall pawb ei weld. Os na allant enwi'r 10, yna gadewch iddynt droi at Exodus 20:1-17 i lenwi'r bylchau.

Gweithgaredd:

Gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu'r 10 gorchymyn yn eu geiriau eu hunain ar atodiad 7. Gallant gadw'r daflen hon yn eu Beiblau os ydynt yn dod â hwy i'r ysgol Sul, neu fynd â hwy adref gyda hwy os na. Ewch drwy beth mae pawb wedi ei roi ar bob un gan ganmol unrhyw un sydd wedi llwyddo i roi un neu fwy o'r gorchmynion mewn iaith bob dydd.

Trafodaeth:

A ydym ni'n cymryd gorchmynion Duw o ddifrif?

Os torrwn ni rai o'r 10 gorchymyn yna gallwn gael cosb neu garchar ee, na ladd, na ladrata. Ydi'r rhai yma'n fwy pwysig felly nac un fel ee, peidio cymryd enw Duw yn ofer (ei ddefnyddio fel rheg, neu ei ddefnyddio'n ysgafn heb feddwl drwy roi OMG ar ddiwedd tecst ayb)?

Ydi Duw eisiau i ni gadw'r 10 gorchymyn heddiw?

Fe welsom mai un o fwriadau Duw wrth roi'r gyfraith i'r Israeliaid oedd y byddai'r bobl yn byw mewn ffordd sy'n deilwng o Dduw, mewn ffordd sy'n denu eraill ato. Os ydym ni'n Gristnogion, mae hynny'r un mor wir i ni. Os gwnawn ni fyw yn union fel y byd o'n cwmpas, gan dorri gorchmynion Duw pan mae hynny'n ein siwtio – sut mae pobl am gael eu denu at Iesu Grist. Mae dilynwr go iawn i Iesu yn cadw ei orchmynion, ac y mae ei fywyd a'i weithredoedd da yn denu pobl at Dduw. 'er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd' Mathew 5 : 16

Amser Addoli:

Gofynnwch am gymorth Duw i gymryd ei orchmynion o ddifrif a byw mewn ffordd sy'n denu eraill at Iesu Grist. Diolchwch nad yw cariad Duw tuag atom yn ddibynnol arnom ni'n cadw'r gyfraith, ond ei fod yn dod trwy aberth Iesu ar y groes. Yr ymateb cywir i gariad Iesu yw cadw ei orchmynion. Gweddiwch y bydd Duw yn dangos yn glir i ni mai dyma'r ffordd orau i fyw. Amen